Adferiad

# Cynllun Grantiau Bach - Arweiniad

**Dylid darllen yr arweiniad cryno hwn ar y cyd â'r ffurflen gais.**

**Pedwar categori'r cronfeydd grant yw:**

| | |
|---|---|
| **Hanfodion** | Uchafswm Dyfarniad £300 (gellir gwneud cais am 2 eitem os ydynt yn rhyngddibynnol (e.e. Ffrâm gwely a Matres). |
| **Amser Allan** | Uchafswm Dyfarniad £300 |
| **Mynediad** | Uchafswm Dyfarniad £250 a £500 ar gyfer gwersi gyrru yn unig |
| **Sgiliau** | Uchafswm Dyfarniad £300 (cyrsiau addysgiadol neu alwedigaethol, gliniadur, tabled) |

**Gwybodaeth Allweddol y Grant:**

- Mae'r Cynllyn Grantiau Bach ar gael yn y 5 lleoliad Gwent yma yn unig: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.
- Gellir dyfarnu uchafswm o **£700 yn ystod cyfnod o 12 mis ac unrhyw 2 gategori gwahanol** i bob aelwyd neu rhwng yr holl Ofalwyr sy'n gofalu am yr un person ni waeth ble maent yn byw.
- Os yw ceisiadau'n llwyddiannus, ni ellir ceisio am yr un gronfa grant nes bydd y cyfnod o 12 mis wedi dod i ben (o ddyddiad y dyfarniad).
- Mae gwyliau ar gael yn y Deyrnas Unedig yn unig, gyda dim ond un cais i bob aelwyd bob 24 mis.
- Bydd dyfarnu'r grantiau drwy e-daleb rhodd a'u hanfon drwy e-bost.yn unig Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw i sicrhau gall yr e-daleb cael ei ddefnyddio ar gyfer yr eitem maent wedi gofyn amdano.
- Gellir dyfarnu ar gyfer gwersi gyrru, cyrsiau, gwersi a rhai seibiannau i ffwrdd drwy anfoneb, os darperir un.

**Eglurhad o'r Cap Uchafswm am Eitem**

- Mae gan y panel y disgresiwn i ddyfarnu yn llawn, yn rhannol, neu i wrthod.
- Mae'r tabl isod yn rhoi syniad o'r symiau mae'r panel yn debygol o'u dyfarnu ar gyfer eitemau a gwasanaethau.
- Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr, a bydd eitemau'n cael eu trafod gan aelodau'r panel.

| **Hanfodion** | | Amser Allan | |
|---|---|---|---|
| Meicrodon | £85 | Tanysgrifiad Netflix 12 mis | £216 |
| Peiriant ffrio aer | £150 | Chromebook | £250 |
| Peiriant golchi | £300 | Tabled / iPad | £150 |
| Peiriant golchi a sychu | £300 | Cloudbook | £200 |
| Sychwr dillad | £250 | Barbeciw - Golosg | £125 |
| Sugnwr llwch â chebl | £125 | Sedd swing gardd | £125 |
| Sugnwr llwch heb gebl | £150 | Cadeiriau disgyrchiant i'r ardd (yr un) | £45 |
| Argraffydd ('inkjet') | £60 | Soffa gardd gyda 4+ sedd | £300 |
| Argraffydd laser | £125 | Set patio gardd gyda 4+ sedd | £250 |
| Ffrâm gwely (yn dibynnu ar y maint) | £100 - £300 | Cadair ŵy i'r ardd | £150 |
| Matres (yn dibynnu ar y maint) | £150 - £300 | Set bistro i'r ardd | £150 |
| Ffrâm gwely a matres | £300 | Aelodaeth Campfa | £300 |
| Awyrwr gwresog | £125 | Gwyliau **yn y Deyrnas Unedig yn unig** | £300 |
| Blanced wresog (y blanced) | £65 | Diwrnod Spa | £100 |
| Rhewgell oergell | £300 | Seibiant spa dros nos | £250 |
| Oergell | £200 | Tocynnau awyren i ymweld â theulu dramor | £300 |
| Rhewgell | £200 | Gwesty / Bwthyn / Rhentu Tŷ Dros Nos | £300 |
| Gliniadur | £275 | Offer ymarfer corff | £300 |
| **Mynediad** | | **Sgiliau** | |
| Gwersi Gyrru | £500 | Gliniadur | £275 |
| Bygi Arbenigol | £250 | Cwrs (Addysgol/Galwadigaethol) | £300 |
| Beic Trydanl | £250 | Gwersi (Cerdd/Chwaraeon/Hobi) | £300 |

**Gwybodaeth Bwysig:**

- Mae'r grantiau'n ddewisol a chyllid yn gyfyngedig. Bydd pob cais yn cael ei asesu'n unigol gan Banel. Mae camddefnydd grantiau, yn cynnwys: Cyflwyno gwybodaeth ffug, anghywir neu gamarweiniol i sicrhau cyllid grant yn anghyfreithlon.

- Ni ellir ad-dalu taliadau sydd wedi eu gwneud eisioes gan y Gofalwr gan y Grantiau Bach. Os yw'r Gofalwr yn prynu'r eitem neu'r gwsanaeth maent wedi ceisio am grant i'w gyllido, bydd yn dileu eu dyfarniad grant.
- Ni fydd ceisiadau anghyflawn neu heb eu harwyddo yn cael eu prosesu ar gyfer y panel. Dylid cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais yn eich ffurflen gais. Ni allwn dderbyn gwybodaeth ychwanegol.

- Mae'n rhaid i grantiau gwersi gyrru gael
  - trwydded gyrru dros dro dilys
  - eu darparu gan hyfforddwr ADI cwbl gymwys, ble gallwn ofyn am eu ID i gadarnhau hyn. Os gwelwch yn dda, gwiriwch eu hargaeledd a'u gallu i ddarparu anfoneb cyn ymgeisio am grant gwersi gyrru ac ni allwn ymwneud ag unrhyw ysgolion gyrru / hyfforddwyr gyrru. Bydd unrhyw gyllid sydd heb ei ddefnyddio yn dod yn ôl i ni.

- Dylai'r ymgeisydd ateb <u>pob</u> cwestiwn mor llawn â phosibl. Bydd methiant i ddarparu digon o wybodaeth i'r panel i ddeall y rôl a'r sefyllfa gofalu yn debygol o arwain i gais aflwyddiannus. Mae ceisiadau sydd ddim yn darparu gwybodaeth lawn o ran yr eitem / gwasanaeth mae'r cais amdano yn debygol o gael eu gwrthod neu fod yn aflwyddiannus.

- Mae'n rhaid i bob unigolyn y cyfeirir atynt yn y ffurflen gais (16 mlwydd oed ag uwch) ddarparu llofnod yn adran 8 (Datganiad y Gofalwr). Mae'n rhaid darparu llofnodau electronig ar ffurf llofnod wedi ei deipio / enw llawn. Bydd llofnodion sydd ar goll yn arwain i wrthod y cais oherwydd rheoliadau GDPR.

- Mae'n rhaid darparu datganiad cefnogol neu ddilysiad o'ch statws fel Gofalwr di-dâl gan weithiwr proffesiynol annibynnol (nid aelod o'r teulu). Os darperir datganiad cefnogol, dylai'r unigolion sy'n gwneud y datganiad gwblhau'r cais a darparu pob gwybodaeth cyswllt i'n galluogi i brosesu'r cais.

- Yn aml, mae rhestr aros yn weithredol ar gyfer Grantiau Bach, felly byddwn yn argymell eich bod yn gwirio'r dyddiadau os ydych chi'n gwneud cais am seibiant i ffwrdd. Nid yw'r Grantiau Bach yn grantiau argyfwng, felly ni ellir diwallu ceisiadau brys.

- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y dyfarniad grant yn <u>ddilys am uchafswm o **6 mis** o ddyddiad y dyfarniad</u>. Os nad yw'r dyfarniad grant wedi ei wario ar ôl y cyfnod hwn, daw yn annilys, gyda'r arian yn dychwelyd i'r 'pot ariannu Grantiau Bach' i'w ailddefnyddio. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, efallai y bydd gofyniad i rai o'r cyllid grantiau sydd wedi eu dyfarnu gael eu gwario ynghynt na'r cyfnod chwe mis i sicrhau bod y cyllid ar gael. Bydd Swyddog Grantiau Bach yn cynghori mewn achos o'r fath.

- Mae angen derbynebau ar gyfer **<u>pob</u>** pryniant a wneir gydag e-daleb rhodd. Dylai'r derbynebau ddangos y cyflenwr, dyddiad y pryniant, yr eitem a brynwyd, y swm a dalwyd, a'r e-daleb a ddefnyddir.

- Mae angen adborth ar gyfer **<u>pob</u>** grant a ddyfarnir. Bydd dolen i'r ffurflen adborth yn cael ei gyrru drwy e-bost.

- Bydd methiant i ddarparu derbynneb (ble'n berthnasol) ac adborth ar gyfer Grantiau Bach sydd wedi eu derbyn,yn arwain i geisiadau yn cael eu gwrthod yn y dyfodol tra mae'r wybodaeth heb ei chyflwyno neu wedi'i gwrthod.

- Ni allwn gymryd rhan mewn ad-daliadau, cwynion neu anghydfodau'n ymwneud â nwyddau sydd ar goll / heb eu danfon / diffygiol / wedi malu, na chyfrifau / contractau personol gyda chyflenwyr.

- Ni allwn gymryd rhan mewn ail-archebu na chanslo seibiannau / diwrnodau spa / gwestai / dyddiau profiad / teithio a.y.y.b.

| **Cyflenwyr Derbyniol (dyma dewisiadau poblogaidd. Mae gan gofalwyr cyfrifoldeb i wirio rhai eraill)** | |
|---|---|
| Amazon | Wayfair |
| Argos | Lakeland |
| Curry’s | Ikea |
| Hobbycraft | Forest Holidays |
| Lady’s Mile | Air Bnb |
| Hotelgift.com | Village Hotel |

**Ni allwn ddarparu grantiau ar gyfer y canlynol:**

| **Eitemau sydd wedi’u heithrio** | |
|---|---|
| Poptai / Hobiau / (Nwy a Thrydan) a Barbeciw Nwy | Unrhyw eitemau sydd angen eu gosod yn broffesiynol |
| Ffonau Symudol yn cynnwys Data | Gosodiadau / Offer integredig |
| Costau Byw / Cyffredinol e.e. bwyd, biliau, rhent, dillad ac ad-dalu dyledion. | Addasiadau Cartref e.e. Rheiliau llaw/cydio, Ramp, Lifft grisiau, Systemau diogelwch a.y.y.b. |
| Prynu a Chynnal Cerbydau yn cynnwys costau tanwydd ac yswiriant | Gwasanaethau ac eitemau statudol e.e. offer ar gyfer gwaith ysgol |
| Eitemau / gwyliau ble mae blaendal neu daliad llawn wedi ei dalu | Cyllid ar gyfer taliadau parhaus e.e. Debyd Uniongyrchol |

| **Cyflenwyr sydd wedi’u heithrio** | |
|---|---|
| Hoseasons – Holiday-voucher.com | Hotels.com |
| Butlins | Giftcards.co.uk |
| Prezzee | Amazon Prime |